

	Targed	Yr hyn yr wyf wedi'i wneud yn yr aseiniad hwn...
Targed 1	Parhau i firienio eich sgiliau cyfeirnod, e.e. rhestr cyfeirnod.	Yr wyf wedi cyfeirio at y llyfr Can Canllaw ar gyfer mireinio fy sgiliau cyfeirnod a sicrhau fy mod yn creu rhestr cyfeirnod gywir.
Targed 2	Mireinio eich sgiliau cyfathrebu, e.e. rheolau treiglo.	Yr wyf wedi ceisio defnyddio'r Ap Geiriaduron ynghyd â'r Ap Treiglo yn fwyfwy cyson er mwyn gwirio treigladau.

Sut mae ysgol yn datblygu un agwedd ar ei Chynllun

Datblygu Ysgol: adroddiad sy'n adfyfrio'n

feirniadol ar y camau gweithredu, yr effaith a'r

sylfaen dystiolaeth.

Rhagarweiniad

Mae gwella ysgolion yn gynaliadwy trwy godi safonau addysg a gwella deilliannau dysgwyr wrth wraidd y Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014. Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, ceir diwylliant sefydledig o welliant parhaus lle mae'r holl staff yn cyfrannu at werthuso safonau a darpariaeth gydag arweinwyr yn sefydlu dealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'r blaenoriaethau ar gyfer gwella (Llywodraeth Cymru, 2014).


Defnyddiwyd y ddealltwriaeth hon i nodi blaenoriaethau gwella penodol, cynllunio camau perthnasol a monitro eu gweithrediad (Estyn, 2019). Er lles trafodaeth, bydd ffocws yr adroddiad hwn yn seiliedig ar un o'r blaenoriaethau gwelliant a nodwyd ar Gynllun Datblygu'r Ysgol lle treuliodd fy Mhrofiad Dewisol: gwella medrau llythrennedd disgyblion CA3.

Adnabyddir fel ysgol Uwchradd, ddwyieithog, gyda thua 1,400 o ddisgyblion. O'r wybodaeth sydd ar gael ar '*Fy Ysgol Leol*', nodwyd fod yr Ysgol dan sylw wedi graddio yn y categori cefnogaeth wyrdd ac ystyrir felly fod yn Ysgol o berfformiad effeithiol heb alw am lefel uchel o gymorth. Cyfran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim yw 18.9%; ffigur sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 16.4% (Estyn, 2019). O safbwynt yr iaith Gymraeg, daw bron traean o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg ac mae 47% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg yn rhugl gydag ychydig dros hanner yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf.

Adolygiad Llenyddiaeth

Wrth ystyried y llenyddiaeth ar Gynlluniau Datblygu Ysgolion (CDY), diffinnir gwella ysgolion fel ffordd systematig o gynllunio gwelliant parhaus a'i olrhain dros amser (Hanover, 2014), wedi'i gefnogi gan gynllunio tymor byr a hirdymor effeithiol (Llywodraeth Cymru, 2014). Yn ôl un diffiniad, ystyrir cynllun gwella ysgol fel map ffordd sy'n nodi'r newidiadau y mae angen i ysgol eu gwneud i wella lefel cyflawniad disgyblion gan ddangos sut a phryd y bydd y newidiadau hyn yn cael eu gwneud (Education Improvement Commission, 2000). Gellir cymharu hyn â diffiniad gwahanol sy'n ychwanegu bod gwella ysgolion hefyd yn cynnwys gwelliant mewn ansawdd a ddiffinnir fel y defnydd disgybledig o ddulliau meintiol ac ansoddol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i wella effeithiolrwydd, effeithlonrwydd, tegwch, prydlondeb neu ddiogelwch prosesau a systemau darparu gwasanaeth (Park et al., 2013). Yn yr un modd, mae Llywodraeth Cymru (2014) yn datgan bod ystyried data ansoddol a meintiol yn ganolog i'r broses hunan arfarnu gonest ag adlewyrchir mewn cylch di-dor (gweler Ffigur 1.1). Cefnogir y farn hon dros wneud penderfyniadau ar sail data gan Schildkamp (2019) sy'n dadlau nad yw gweithredu heb ddata yn aml yn effeithiol a bod angen felly defnyddio data i ddarganfod achosion problem, cyn cymryd camau i'w wella. Fodd bynnag, yng nghylch arolygu 2010-2017 Estyn, dynodi'r hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant fel yr agwedd wannaf ar arweinyddiaeth mewn hanner ysgolion uwchradd. Mae'r sefyllfa hyn wedi arwain at argymhelliad penodol i bob ysgol gryfhau eu proses hunanwerthuso a chynllunio gwelliant (Estyn, 2019).

Ffigur 1.1



Dylai gwella ysgolion ddechrau gyda nodau penodol, mesuradwy sydd wedi'u diffinio'n glir a'u cysylltu gyda phrif weledigaeth yr ysgol (Schildkamp a Poortman, 2015). Caiff y weledigaeth hon ei ystyried yn hanfodol i'r holl gamau eraill yn y broses gwella ysgol wrth

osod cyd-destun a phwrrpas clir i'r gweithrediadau trwy gydol y broses (Llywodraeth Cymru, 2014). Dylai'r hunanwerthuso a'r casgliad o ddata fod yn gysylltiedig â'r nodau; dylai'r camau gweithredu eu cyfeirio tuag at y nodau; a dylai'r gwerthusiad ganolbwyntio ar p'un a gyflawnwyd y nodau ai peidio (Schildkamp, 2019). At hyn, dadla Hanover (2014) bod y broses hon yn aml yn heriol i lawer o ysgolion oherwydd bodola ffin denau rhwng gosod nodau anghyraeddadwy a di-werth. Hynny yw, disgwylir y gynllunio o heriau rhesymol er mwyn llwyddo i leihau'r bwlch rhwng lefel perfformiad cyfredol ysgol a'i gwir botensial (Llywodraeth Cymru, 2014).

Wedyn, rhaid ystyried yr her o flaenoriaethu'r meysydd i'w ddatblygu a nodwyd drwy'r hunanwerthuso. Awgryma Hanover (2014) bod angen meddylfryd strategol ymhlith y rhai sy'n gwneud y penderfyniadau fel y nodir hefyd gan Lywodraeth Cymru (2014). Mae'r Education Improvement Commission (2000) yn argymhell i'r corf llywodraethu, y pennaeth a staff yr ysgol targedu dwy i bum maes blaenoriaeth o fewn cynllun gwella ysgolion. Ar y naill law, gall anwybyddu rhai meysydd mater er mwyn sicrhau gwell ffocws ar fan penodol fod yn anodd ond ar y llaw arall, mae ymchwil yn awgrymu bod y broses gwella barhaus yn y pen draw yn caniatáu i ysgolion fynd i'r afael â phob maes mater dros amser (Hanover, 2014). Mae'n werth nodi fan hyn y llenyddiaeth sydd yn cyflwyno model rheolaeth Cooperrider a Srivasta o 'Appreciative Enquiry' (1987). Defnyddiwyd ar gyfer nodi ac adeiladu ar gryfderau presennol (Brighthouse a Woods, 1999) er mwyn rhannu'r arferion gorau, o fewn yr ysgol ac ar draws y gymuned ehangach ag adnabyddir fel agwedd hanfodol o welliant o fewn y broses CDY (Llywodraeth Cymru, 2014). Caiff y model hwn ei gymharu gyda'r un mwy adnabyddus o rheolaeth 'Problem Solving' lle mae gorbwyslais ar wendidau (Brighthouse a Woods, 1999) yn achosi morâl isel sy'n cael effaith negyddol ar welliant ysgol (Hanover, 2014). Cefnogir Estyn (2014) y farn dros ysgolion yn hunanwerthuso gan nodi cryfderau wrth iddynt weld cydberthynas gref rhwng hunanwerthuso sy'n ffocysu ar ddeilliannau positif gyda gwelliannau mewn profiadau addysgol. Serch hyn, mae adroddiad blynyddol 2018-2019 Estyn yn adlewyrchu'r ffaith nad yw arweinwyr mewn hanner ysgolion uwchradd yn gwerthuso deilliannau disgyblion nac effeithiolrwydd eu darpariaeth yn ddigon da. Yn benodol, nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon manwl ar effaith addysgu. Canlyniad hyn yw'r anhawster a ddaw wrth geisio nodi agweddau ar addysgu y mae angen eu gwella, neu i gynllunio a sicrhau'r gwelliannau hynny (Estyn, 2019).

Pwynt canolog i'w ystyried yn dilyn y drafodaeth hon yw'r agwedd oddi ar y CDY a ddewiswyd i ymdrin ag ef: gwella medrau llythrennedd disgyblion CA3. Yn ôl adroddiad blynyddol Estyn ar gyfer 2018-2019, mae safonau yn gyffredinol wedi gwella mewn bron i hanner o ysgolion uwchradd. Fodd bynnag, noda Estyn (2019) bod cynnydd cyfyngedig wedi

bod ar safonau llythrennedd gan argymhell y dylai'r maes hyn barhau'n flaenoriaeth i lawer o ysgolion. Ar yr un pryd, dylid nodi'r ymchwil gan Estyn (2019) sydd yn honni nad yw disgyblion mewn ysgolion uwchradd yn cael digon o gyfleoedd i ymgymryd â phrofiadau dysgu sy'n ffocysu'n benodol ar siarad, er enghraifft i wella eu gallu i gwestiynu, herio ac adeiladu ar gyfraniadau eraill trwy drafodaeth. Mewn ysgolion llai effeithiol, gwelir gwrando a siarad fel medrau sy'n cefnogi darllen ac ysgrifennu, yn hytrach nag fel medrau y mae angen eu datblygu eu hunain. Dadl debyg sydd gan Didau (2014) wrth ddweud bod y datblygiad o'r pedwar sgil llythrennedd yn sylfaenol i addysg gan fod disgyblion yn deall yr hyn ag addysgwyd trwy ddarllen a gwrando ac yn arddangos y ddealltwriaeth hon trwy ysgrifennu a siarad.

Lle mae'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd yn effeithiol, mae arweinwyr yn sicrhau bod athrawon yn cael mynediad i ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel ar sut i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion yn gynyddol (Llywodraeth Cymru, 2019). Yn yr ysgolion hyn, mae staff yn rhannu'u harbenigedd o fewn eu hysgolion a gydag eraill gan hefyd dewis yr ymyriadau a ddefnyddiant yn ofalus, yn defnyddio ymchwil yn briodol i lywio'u harfer, ac yn monitro cynnydd disgyblion yn fanwl.

Datblygu Pwynt Gweithredu / Adyfyrio a Gwerthuso

Y pwynt cyntaf y dylid ymdrin ag ef yw cyd-destun a chefnidir yr arfer sy'n arwain y flaenoriaeth ar y CDY. Ynghyd ag adroddiad diweddaraf Estyn (2019), ystyriwyd yr Ysgol data meintiol megis canlyniadau PISA, Profion Cenedlaethol Cymraeg a phrofion darllen yr ysgol ag adlewyrchwyd yr angen am welliant. Mynna Schildkamp (2019) bod data yn un o'r offerynnau allweddol y dylid ysgolion eu defnyddio yn eu prosesau gwella ysgolion ar gyfer gosod nodau dysgu, pennu cynnydd disgyblion a rhoi adborth iddynt ar eu dysgu; yr union bwrpas ag y defnyddir data gan yr Ysgol yn y cyd-destun hwn. Dangosa hyn lefel glir o hunan arfarnu yn seiliedig ar ddata sy'n arwain at welliant (Schildkamp, 2019). Fodd bynnag, cesglir cryn dipyn o ddata mewn ysgolion oherwydd bod pobl wedi bod yn eu casglu ers blynyddoedd lawer, yn hytrach nag am resymau pwrpasol. Mae'n bwysig felly gofyn beth yw nod y data a gasglwyd mewn gwirionedd a pham mae rhai agweddau'n cael eu mesur (Tulowitzki, 2016). Er gwaethaf y ddadl hon, rhaid cyfaddef bod dadansoddiad data llythrennedd ar gyfer gwelliant yr Ysgol dan sylw yn unol ag egwyddor Donaldson (2015) sy'n honni bod dysgu ac addysgu da yn darparu cyfleoedd i'r cyfrifoldeb trawsgwricwlaidd hyn cael eu cryfhau a'u hymarfer yn gyson. Hynny yw, dylid y Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDaPh) darparu cyfle da i'r dysgwyr ddatblygu, ymestyn a chymhwyso'r sgil hyn ar draws y cwricwlwm yn ystod y broses addysgu a dysgu (Llywodraeth Cymru, 2019). Ar gyfer canolbwyntio ar ddatblygu lefelau uchel o gymhwysedd


yn llythrennedd, dylid yr Ysgol cyfeirio'n gyson at y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLIRh) i lywio'u harferion wrth weithio tuag at gyflawni'r nod. Yn ôl Ofsted (2018), mae medrau llythrennedd da yn hanfodol er mwyn i bobl ifanc allu cyflawni addysg uwch ac ymuno â'r byd gwaith, ac mae iaith yn gyfrwng lle mae disgyblion yn dysgu sut i fynegi'u hunain ar draws y cwricwlwm ac mewn bywyd tu hwnt i'r ysgol (Estyn, 2017).

Yn wyneb hyn, dylai CDY effeithiol gynnwys holl bartneriaid a rhanddeiliaid yr ysgol fel bod gan bawb ymrwymiad i drefniadau gwella'r ysgol (Llywodraeth Cymru, 2014). Mae uwch dîm arwain yr ysgol felly yn gosod disgwyliadau uchel i'r staff a'r disgyblion er mwyn sicrhau gwelliant (gweler Ffigur 2.1). Er mwyn tanlinellu hyn, defnyddiwyd dull pen i lawr (gweler Ffigur 2.2) ar gyfer rhoi ar waith y camau gweithredu ag amlinellir yn y CDY. Mantais i'r dull hwn yw bod arweinyddiaeth o ansawdd uchel a gweithrediad ysgol gyfan fel nad yw rhanddeiliaid yn gweithio ar wahân ar wahanol fentrau (Chapman a Sammons, 2013). Er hyn, gall y dull yma achosi teimladau o ddigymhelliant ymhlith staff sy'n teimlo nad oes ganddynt gyfle i gyfrannu fel y dymunir, yn ogystal â weithiau achosi dadrithiad o ganlyniad i uwch rheolaeth. Yn yr achos hwn, byddai'r defnydd o ddull gwaelod i fyny yn fanteisiol gan ei fod wedi selio ar gyfranogiad pob aelod o staff ac yn hybu teimlad o gymhelliant i lwyddo (Chapman a Sammons, 2013) gydag arweinwyr ar bob lefel yn cydweithio'n effeithiol ac yn barod i dreialu a gwerthuso trefniadau cwricwlaidd arbrol.

Ffigur 2.1

Rôl a Chyfrifoldebau

- **UDRh:** arwain a rhoi proffil uchel i lythrennedd. Hyrwyddo'r GYG a gwau strategaethau ysgol gyfan yn effeithiol. Sicrhau bod materion yn ymwneud â llythrennedd ar agenda cyfarfodydd staff.
- **Cydlynnydd Llythrennedd:** Arwain cyfarfodydd a gwaith y GYG; cefnogi adrannau wrth weithredu strategaethau a rhannu arfer dda; cydlynw, adrodd a gwerthuso i ba raddau y mae'r Fframwaith Llythrennedd Cenedlaethol wedi'i fapio a gwreiddio, o fewn yr ysgol gyfan; creu a ffurfioli'r cynllun gweithredu llythrennedd, blynyddol; cyfathrebu â'r Cydlynnydd ADY/Cydlynnydd ADY wrth glustnodi'r dysgwyr sydd angen ymyrraethau; tracio cynnydd disgyblion sy'n derbyn ymyrraethau.
- **Adrannau Cymraeg a Saesneg:** darparu disgyblion â gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sydd angen arnynt ddarllen, ysgrifennu a chyfathrebu'n effeithiol.
- **Athrawon ar draws y cwricwlwm:** fod yn gyfarwydd â'r Fframwaith Llythrennedd Cenedlaethol a dilyniant drwyddo; cyfrannu at ddatblygiad iaith y disgyblion trwy gynllunio gwersi addas sy'n sicrhau cynnydd yn ôl y Fframwaith Llythrennedd Cenedlaethol; sicrhau awweddau cadarnhaol at llythrennedd drwy foddi llythrennedd effeithiol i ddysgwyr.
- **Disgyblion:** cymryd cyfrifoldeb dros eu hangenion llythrennedd personol a gwneud gwelliannau.
- **Rhieni/ Gwarchodwyr:** fod yn ymwybodol o bwysigrwydd gwella sgiliau llythrennedd eu plant a'r manteision o wneud hynny; annog darllen ar gyfer mwyndad; mynychu gweithdai i gasglu gwybodaeth am weithdrefnau'r ysgol ar gyfer datblygu sgiliau.

Ffigur 2.2

Gan fod gwella medrau llythrennedd disgyblion yn weithred ysgol gyfan, gall arweinwyr fod wedi rhoi cyfarwyddiadau i'r MDaPh ddatblygu cynlluniau adrannol eu hun fel un strategaeth o fynd i'r afael â'r flaenoriaeth. Dywed Fidler (2002) bod creu 'mini-strategic plans' (tud. 90) yn galluogi adrannau i weithio ar flaenoriaethau penodol sy'n addas iddyn nhw, gan gofio byddant yn gyson â'r cynllun strategol ar gyfer yr ysgol gyfan ac yn hwyluso proses swyddogaethol o gydweithio a gwella. Yn unol ag argymhellion Llywodraeth Cymru (2014) i sicrhau bod y person gyda'r medrau iawn yn ei le er mwyn gwireddu amcanion sefydliadol byrdymor a thymor hir, penodwyd yr Ysgol cydlynedd llythrennedd. Wrth glustnodi cyllid tuag at hwn, dangosa'r ysgol ei fod yn meithrin gallu ar y pryd ac ar gyfer y dyfodol mewn modd strwythuredig (Llywodraeth Cymru, 2014) wrth sicrhau'r datblygiad o gynllun llythrennedd a chaiff ei thrin fel adran yn ei hun.

Fel y soniwyd eisoes, mae angen i'r CDY dangos manylion o sut fydd y corf llywodraethau'n gweithio gyda chymuned ehangach yr ysgol er mwyn i'r broses fod ar ei fwyaf effeithiol. Awgryma'r Education Improvement Commission (2000) y dylai ysgolion roi'r wybodaeth, y cyfleoedd a'r gefnogaeth sydd eu hangen ar rieni i gymryd rhan yn dysgu eu plant, trwy edrych y tu hwnt i'r arferion traddodiadol a chwilio am ffyrdd arloesol o gynnwys rhieni. Er enghraifft, gall ysgolion annog rhieni i ddarllen gyda'u nhw bob dydd trwy gynnig cymhellion darllen (Education Improvement Commission, 2000). Esiampyl nodedig o hyn yw rhaglen 'Her Darllen Haf' yr Ysgol a lansiwyd ochr yn ochr gydag ysgolion clwstwr yr ardal. Ceir tystiolaeth o bartneriaethau o fewn y gymuned a pherthnasoedd rhiant-ysgol llwyddiannus lle mae staff a'r gymuned ehangach yn gweithio gyda'i gilydd i wella dysgu'r disgyblion. Wedi'i anelu at ddisgyblion blwyddyn 6, mae'n datblygu sgiliau darllen a geirfa allweddol ac yn annog darllen yn y cartref er mwyn osgoi tuedd negyddol y gwyliau haf o ran cymhelliad darllen. Sylfaen tystiolaeth y rhaglen hon yw'r ymchwil gan y National Literacy Trust (2017-2018) sydd yn datgan bod 26.2% o blant ond yn darllen unwaith y mis neu lai. Cyfrannir hwn yn gryf at ddatblygu ein plant fel dysgwyr uchelgeisiol ac annibynnol, yn unol â dibenion

Donaldson (2015). Mae'r ysgol hefyd wedi sefydlu rhaglen benthyca llyfrau, a, lle bo hynny'n bosibl, teithiau i'r llyfrgell gyhoeddus i roi cyfle i blant na fyddai efallai â llyfrau gartref eu cael mewn ymdrech i gefnogi sefyllfaoedd teuluol anodd rhai disgyblion (Education Improvement Commission, 2000). Trwy'r ddarpariaeth o wybodaeth ac adnoddau'r ysgol, mae'r perthnasoedd cefnogol hyn yn annog mathau priodol ac ymarferol o gyfranogiad rhieni fel partneriaid yn addysg eu plant.

Cynigia'r rhaglen ymyrraeth darllen cyfle i flwyddyn 7 ac 8 darllen gyda chynorthwyr dysgu ac aelod o'r Chweched wedi'u hyfforddi ar sut i'w gefnogi fel rhan o'r cynllun darllen cilyddol bydi. Dengys yr esiampl hon fod yr Ysgol yn gwneud y gorau o'u hadnoddau wrth ystyried medrau a gallu eu gweithlu (Llywodraeth Cymru, 2014). Yn yr un modd, mae'r rhaglen 'Premier League Reading' yn seiliedig ar yr ymchwil gan y National Literacy Trust (2017-2018) sydd yn dadlau bod bechgyn yn llai tebygol o ymgymryd â gweithgareddau darllen na merched. Rhedwyd y rhaglen yma gan athro tu fewn i'r MDaPh Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu gyda'r bwriad o ddarparu cyd-destunau dilys i sicrhau ymrwymiad y disgyblion i ddarllen am fwy. Rhoddir ffocws ar hybu cymhelliant a hyder y plant wrth geisio newid eu hagwedd tuag at ddarllen. Mae hwn eto yn enghraifft o ddatblygiad yr Ysgol o'i staff fel bod ganddi weithlu sydd â'r medrau a'r profiadau angenrheidiol i gwrdd ag anghenion y dysgwyr (Llywodraeth Cymru, 2014). Yn fwy, bu'r rhaglen yma yn llwyddiannus yn adnabod adnoddau yn y gymuned megis y llyfrgell leol am wersi, neu glybiau a stadiymau chwaraeon a chyfrannir at wella lefel cyflawniad wrth ennyn diddordeb y disgyblion. Mae holiaduron llais y dysgwr yn mesur gwerth, datblygiad o ran ymrwymiad i ddarllen a chynnydd sydd wedi dangos canlyniadau positif cynyddol hyd yma.

Wrth ddod a'r trafodaeth at drefniadau mesur effaith, dywed Llywodraeth Cymru (2014) y dylai ysgolion fonitro'n rheolaidd ar ei CDY. Noda Estyn (2019) bod gan yr Ysgol weithdrefnau cadarn er mwyn monitro ac adolygu effaith ei gwaith ar gynnydd academiaidd disgyblion. Er mwyn egluro hyn, gellid ystyried gwerthusiad carreg filltir yr Ysgol lle gwnaed gwiriad cynnydd bob chwarter ysgol; ym mis Medi, Ionawr a Mai. Mae hwn yn cysylltu gyda'r theori dros strwythuro nodau tymor hir i gynnwys nodau interim tymor byr (Hanover, 2014). Dywed (Hanover, 2014) fod adolygu dilynol aml ac effeithlon ar gasgliadau a dynnir o ddata yn cefnogi arweinwyr ysgolion dysgu o'r hyn sy'n gweithio ac addasu arfer i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud tuag at dargedau penodol. Er bod yr arweinwyr yn defnyddio systemau tracio sy'n gweithio, mae ymchwil gan Kutash et al. (2010) yn awgrymu gall fod yn fwy effeithiol hôl-fapio meysydd gwella yn fisol, neu hyd yn oed yn wythnosol, os yn bosib. Byddai'r math yma o gynllunio mwy manwl yn gwneud nodau yn llawer mwy gweithredadwy, gan ganiatáu i ysgolion nodi'n well y camau rhesymol sydd eu hangen i gyrraedd targedau

diwedd y flwyddyn (Kutash et al., 2010). Ymhellach, noda Estyn (2019) nad yw arweinwyr canol y prosiectau yn defnyddio canfyddiadau prosesau monitro ac arfarnu i wella ansawdd yr addysgu o fewn eu hadrannau. Gellid mynd mor bell a dweud y byddai creu cynlluniau adrannol, fel awgrymwyd uchod, yn caniatáu i athrawon fyfyrion ar y cynnydd a wnaed a dadbacio llwyddiannau er mwyn creu momentwm ar gyfer y flwyddyn i ddod (Hanover, 2014). Gallai hwn edrych rhywbeth fel Map Llythrennedd sy'n cofnodi a thracio safonau llythrennedd o fewn y MDaPh lle bu ffocws ar elfennau megis trefnu syniadau a gwybodaeth ynghyd ac ysgrifennu'n gywir. Mantais gwneud hwn byddai sicrhau bod yr holl MDaPh yn gweithio'n gyson at sicrhau bod tasgau yn berthnasol ac yn addas, a bod llythrennedd wedi'i ymgorffori'n naturiol mewn cynlluniau gwaith a fyddai'n darparu'r cyfleoedd cywir i gynhyrchu ysgrifennu estynedig, datblygu darllen a llafar.

Casgliad

I grynhoi felly, mae'r adroddiad yma wedi adfyfyrion feirniadol ar gamau gweithredu, effaith a sylfaen dystiolaeth un agwedd ar CDY yr Ysgol dan sylw. Rwyf wedi dysgu bod sicrhau bod yr ysgol gyfan a'r gymuned ehangach yn ymwybodol, ac yn rhan o, gynlluniau'r ysgol i sicrhau gwelliant yn allweddol i broses effeithiol gyda chanlyniadau llwyddiannus. Gwyr pawb bod llythrennedd yn gyfrifoldeb proffesiynol i bob athro, ac mae ymdrech gan bob un i wella medrau disgyblion yn hanfodol. Deallaf bwysigrwydd y ddyletswydd statudol sydd dros lythrennedd wrth gyfeirio at y *Cwricwlwm i Gymru 2022 a'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth* ac rwyf yn ymwybodol o fy rôl annatod o sicrhau fy mod yn cynllunio ar gyfer cynnydd ar bob adeg. Yn ôl Harris a Goodall (2007), mae ymgysylltiad rhieni â dysgu plant yn gwneud gwahaniaeth wrth bwysleisio mai dyma'r ysgogiad gwella ysgol fwyaf pwerus sydd gennym. Wrth symud ymlaen gyda fy ngyrfa broffesiynol, mi fyddaf yn ceisio sicrhau fy mod yn gweithredu ymgysylltiad teuluol o ansawdd uchel er mwyn sicrhau bod gweithgareddau cymorth i rieni wella dysgu eu plant yn nod clir a chyson (Goodall a Vorhaus, 2011).

Rhestr Cyfeirnod

1. Brighouse, T. & Woods, D. (1999) *How to improve your school*. Abingdon: Routledge.
2. Chapman, C. & Sammons, P. (2013) *School Self-Evaluation for School Improvement: What Works and Why?* Reading: CfBT Education Trust.
3. Didau, D. (2014) *The Secret of Literacy: Making the implicit explicit*. Caerfyrddin: Crown House Publishing Ltd.
4. Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. Caerdydd: Crown Copyright. Ar gael ar lein: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf> [cyrchwyd: 01/04/2020]
5. ESTYN (2019) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru*. Ar gael ar lein: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/Annual_Report_2018_2019_cy.pdf [cyrchwyd: 01/04/2020]
6. ESTYN (2017) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2016-2017*. Ar gael ar lein: https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Estyn%20Annual%20Report_Welsh_Accessible.pdf [cyrchwyd: 01/04/2020]
7. ESTYN (2019) *Adroddiad ar [REDACTED]*. Ar gael ar lein: [https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/\[REDACTED\].pdf](https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/[REDACTED].pdf) [cyrchwyd: 01/04/2020]
8. ESTYN (2014) *Canllaw hunanarfarnu ar gyfer ysgolion uwchradd*. Llywodraeth Cymru. Ar gael ar lein: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Secondary%20manual%20cy_0.pdf [cyrchwyd: 01/04/2020]
9. Education Improvement Commission (2000) *School Improvement Planning: A Handbook for Principals, Teachers and School Councils*. Ontario Ministry of Education. Ar gael ar lein: <http://www.edu.gov.on.ca/eng/document/reports/sihande.pdf> [cyrchwyd: 01/04/2020]

10. Fidler, B. (2002) *Strategic Management for School Development: Leading Your School's Improvement Strategy*. Llundain: Paul Chapman Publishing Ltd.
11. Goodall, J & Vorhaus, J. (2011) *Review of Best Practice in Parental Engagement: Practitioners Summary*. Llundain: Adran Addysg.
12. Hanover Research (2014) *Best Practices for School Improvement Planning*. District Administration Planning.
13. Harris, A. & Goodall, J. (2007) *Do Parents Know They Matter? Raising Achievement Through Parental Engagement*. Llundain: Continuum International Publishing Group.
14. Kutash, J. et al. (2010) *The School Turnaround Field Guide*. FSG Social Impact Advisors and The Wallace Foundation.
15. Llywodraeth Cymru (2019) *Cwricwlwm Drafft i Gymru 2022*. Ar gael ar lein: <https://hwb.gov.wales/storage/64353d33-3104-4466-8f4e-15d8cf938c5a/canllaw-i-gwricwlwm-i-gymru-2022.pdf> [cyrchwyd: 01/04/2020]
16. Llywodraeth Cymru (2014) *Cynlluniau Datblygu Ysgolion*. Ar gael ar lein: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/cynlluniau-datblygu-ysgolion.pdf> [cyrchwyd: 01/04/2020]
17. Llywodraeth Cymru (2019) *Fy Ysgol Leol*. Ar gael ar lein: <http://mylocalschool.gov.wales/School/6694029?lang=cy> [cyrchwyd: 01/04/2020]
18. National Literacy Trust (2019) *Children and young people's reading in 2017/18: Findings from our Annual Literacy Survey*. Ar gael ar lein: https://cdn.literacytrust.org.uk/media/documents/Reading_trends_in_2017-18.pdf [cyrchwyd 01/04/2020]
19. Ofsted (2018) *The Annual Report of Her Majesty's Chief Inspector of Education, Children's Services and Skills 17/18*. Ar gael ar lein: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/761606/29523_Ofsted_Annual_Report_2017-18_041218.pdf [cyrchwyd: 01/04/2020]
20. Park, S. et al. (2013) *Continuous Improvement in Education*. Carnegie Foundation for the Advancement of Teaching.

21. Schildkamp, K. (2019) *Data-based decision-making for school improvement: Research insights and gaps*. Educational Research, 61:3, 257-273.
22. Schildkamp, K., & Poortman, C. L. (2015) *Factors Influencing the Functioning of Data Teams*. Teachers College.
23. Tulowitzki, P. (2016) *Educational Accountability around the Globe. Challenges and Possibilities for School Leadership in Educational Accountability: International Perspectives on Challenges and Possibilities for School Leadership*. Llundain: Routledge, tt. 233-238.